# AELOD ANNIBYNNOL AR GYFER Y PWYLLGOR SAFONAU

**Cyflwyniad**

Diolch unwaith eto i chi am eich diddordeb mewn gweithio gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Mae ein Pwyllgorau Safonau yn darparu mewnbwn annibynnol gwerthfawr i weithdrefnau a phrotocolau sydd angen i Gynghorwyr eu dilyn, ac mae recriwtio pobl gyda’r sgiliau a’r agwedd iawn yn allweddol i’w llwyddiant. O fewn y Pwyllgor ein rôl fel Aelodau Annibynnol yw dod a didueddrwydd i waith y Pwyllgor ac i helpu sefydlu meincnod moesegol i Gynghorwyr gyflawni.

Gobeithiaf fod y cyfle hwn o ddiddordeb i chi ac edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.

Yn gywir

Clive Wolfendale
Cadeirydd Pwyllgor Safonau Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

1. **<u>Rôl a gwaith y Pwyllgor Safonau</u>**

1.1 Mae’r Pwyllgor Safonau yn rhan ganolog o’r fframwaith moesegol sy’n llywodraethu ymddygiad Aelodau Awdurdod Lleol. Mae bob aelod o awdurdod lleol a bob Cyngor Tref a Chymuned yn gorfod dilyn Cod Ymddygiad Aelodau. Prif swyddogaeth y Pwyllgor Safonau yw hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan Gynghorwyr, Aelodau Cyfetholedig a Chynrychiolwyr Eglwys a Rhiant-lywodraethwyr. Mae sawl ffordd y gwneir hyn:-

- Mae'r Pwyllgor yn goruchwylio rhaglen hyfforddi a chyflwyno ar gyfer Cynghorwyr mewn perthynas â materion moesegol.
- Mae'n ystyried ac yn gwneud argymhellion ar God Ymddygiad y Cyngor a'r protocol/gweithdrefnau sy'n egluro ac yn ymhelaethu ar y Cod Ymddygiad.
- Mae'n monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad a lefelau cydymffurfio.
- Mae hefyd yn cynnal y swyddogaethau hyn mewn perthynas â Chynghorau Tref a Chymuned o fewn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.
- Mae'n ystyried ceisiadau gan Aelodau am ollyngiad i ganiatáu iddynt gymryd rhan mewn trafodaethau er bod ganddynt gysylltiad sy’n rhagfarnu o dan y Cod.

1.2 Mae gan y Pwyllgor Safonau hefyd rôl orfodi. Os cyflwynir cwyn am gynghorydd i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ac os yw ef yn credu bod y Cod Ymddygiad wedi ei dorri, yna gall gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Safonau.

Bydd y Pwyllgor Safonau wedyn yn cynnal gwrandawiad. Rôl panel y gwrandawiad fydd penderfynu a yw'r Cod Ymddygiad wedi ei dorri mewn gwirionedd ac, os felly, beth (os o gwbl) sy'n briodol.

1.3 Yn olaf, mae'r Pwyllgor Safonau yn penderfynu ar geisiadau am sylwadau gan Gynghorwyr sydd wedi eu dwyn i sylw Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn unol â Chynllun Indemniad y Cyngor ar gyfer Aelodau a Swyddogion.

## 2. <u>Cyfarfodydd a Llwyth Gwaith</u>

2.1 Fel rheol mae'r Pwyllgor yn cyfarfod ym Modlondeb, Conwy, bob tri mis ar ddydd Llun am 2 pm. Fodd bynnag, bydd angen rhywfaint o hyblygrwydd gan y bydd y Pwyllgor weithiau'n cael ei alw ar fyr rybudd. I'r gwrthwyneb gall cyfarfod Pwyllgor ei ganslo os nad oes eitemau ar yr agenda.

2.2 Mae'r cyfarfodydd yn cael eu recordio ac yna fe'u rhoddir ar wefan y Cyngor i'r cyhoedd eu gwylio. Efallai y bydd ymgeiswyr yn dymuno gwylio cyfarfodydd blaenorol i weld gwaith y pwyllgor a gallant wneud hynny trwy ddilyn y ddolen ganlynol –

<u>Democratiaeth Lleol Conwy : Browse meetings - Pwyllgor Safonau</u>

2.3 Mae'r rhaglen a'r adroddiadau ar gyfer bob cyfarfod yn cael eu hanfon 3 diwrnod gwaith clir cyn bob cyfarfod. Gellir gweld papurau ar gyfer cyfarfodydd blaenorol ar dudalen we'r Pwyllgor trwy ddilyn y ddolen ganlynol –

<u>Democratiaeth Lleol Conwy : Browse meetings - Pwyllgor Safonau</u>

2.4 Mae pob aelod newydd o'r Cyngor yn cael rhaglen gyflwyno a hyfforddiant sydd wedi ei deilwra i'w anghenion a'i brofiad. Os yw'ch cais yn llwyddiannus, byddwn yn trafod pa hyfforddiant sydd arnoch ei angen.

2.5 Nid yw gwrandawiadau achosion honedig o dorri'r Cod Ymddygiad yn gyffredin. Pan fydd gwrandawiadau yn codi, bydd eu hyd yn dibynnu ar yr hyn sydd wedi ei dorri a nifer y tystion sydd i'w galw. Fel arfer, gellir datrys achosion o'r fath mewn diwrnod.

2.6 Yn ogystal, mae holl Gynghorau Cymru yn cynnal Cynhadledd Safonau bob dwy flynedd fel arfer ac mae Cadeirydd y Pwyllgor Safonau yn mynychu Fforwm Pwyllgor Safonau Cenedlaethol sy'n cyfarfod ddwywaith y flwyddyn.

## 3. <u>Cyfansoddiad y Pwyllgor Safonau a rôl Aelodau Annibynnol</u>

3.1 Mae'r Pwyllgor Safonau yn cynnwys:

- pum aelod annibynnol;
- tri Chynghorydd Bwrdeistref Sirol Conwy; ac
- un aelod o Gyngor Tref neu Gymuned.

3.2 Mae hyn yn golygu bod y mwyafrif o aelodau'r Pwyllgor yn Aelodau Annibynnol. Mae eu rôl yn bwysig iawn. Mae eu presenoldeb wedi ei gynllunio i sicrhau bod

y Pwyllgor yn aros mor annibynnol â phosibl o'r Cyngor er mwyn sicrhau bod ei benderfyniadau yn ddiduedd ac yn cael eu gweld yn ddiduedd. Fel aelodau "lleyg" o’r Pwyllgor maent yn dod â safbwynt allanol i drafodaethau'r Pwyllgor â golwg newydd ar faterion.

3.3 Mae pwysigrwydd y rôl honno wedi ei adlewyrchu yn y rheolau ar gyfer sut y mae'r Pwyllgor yn gweithredu. Mae’n rhaid i Aelodau Annibynnol gyfrif am o leiaf hanner yr aelodau sy'n bresennol mewn unrhyw gyfarfod unigol. Os nad yw hynny'n wir, yna ystyrir bod y cyfarfod yn gyfarfod "heb gworwm" ac ni fydd modd ei gynnal. Er ein bod yn derbyn na all Aelodau Annibynnol fynychu pob cyfarfod, mae'n bwysig iawn eu bod yn mynychu pryd bynnag y bo modd er mwyn osgoi cyfarfod heb gworwm.

3.4 Mae’n rhaid i gadeirydd y Pwyllgor hefyd fod yn Aelod Annibynnol. Mae hyn yn sicrhau bod y swydd, sy'n gyfrifol am lunio gwaith, cyfeiriad a diwylliant y Pwyllgor, yn cael ei dal gan rywun annibynnol sy’n atgyfnerthu ei natur ddiduedd.

## 4. <u>Nifer y Swyddi Gwag a Hyd y Penodiad</u>

4.1 Mae’r cyfnod y gall Aelod Annibynnol wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau wedi ei bennu mewn deddfwriaeth. Gall Aelodau Annibynnol wasanaethu rhwng 4 s 6 blynedd yn eu tymor cyntaf. Maent wedyn yn gymwys i gael eu hailbenodi am ail dymor, ond ni ddylai cyfanswm y cyfnod ar y Pwyllgor fod yn fwy 10 mlynedd.

## 5. <u>Tâl a Threuliau</u>

5.1 Caiff Aelodau Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau lwfans am fynychu cyfarfodydd y Pwyllgor, sesiynau briffio a hyfforddiant. Mae’r lwfans hwnnw wedi ei bennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

5.2 Mae'r lwfans ar hyn o bryd yn £205 am ddiwrnod llawn (rhwng 4-8 awr) a £105 ar gyfer hanner diwrnod (hyd at 4 awr). Yn ogystal, telir treuliau (megis teithio) yn unol â Chynllun Lwfansau’r Cyngor.

## 6. <u>Y Broses Benodi</u>

6.1 Bydd panel sy'n cynnwys tri Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau ac aelod annibynnol o’r panel yn llunio rhestr fer. Cynghorir y panel gan y Swyddog Monitro, Matt Georgiou.

6.2 Bydd disgwyl i ymgeiswyr ddangos ar eu ffurflenni cais ac mewn cyfweliad eu bod yn bodloni'r meini prawf canlynol:

- Cymeriad da a gonest
- Meddu ar sgiliau gwrando
- Gallu deall a phwyso a mesur tystiolaeth
- Gallu dod i farn wrthrychol ac egluro'r farn honno drwy gyfeirio at y dystiolaeth
- Meddu ar sgiliau gweithio mewn tîm
- Parch at eraill a dealltwriaeth o faterion amrywiol
- Gallu cadw cyfrinachedd

- Ddim yn cymryd rhan weithredol mewn gwleidyddiaeth leol na chenedlaethol
- Ddim wedi cael anghydfodau sylweddol gyda'r Awdurdod
- Ddim â pherthynas agos ag unrhyw Aelod/Swyddog yr Awdurdod

6.3 Yn ogystal, mae'n rhaid i ymgeiswyr fod yn annibynnol o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a Llywodraeth Leol. Felly mae cyfyngiadau yn berthnasol, ac ni fydd unrhyw un sydd ddim yn bodloni'r gofynion canlynol yn gymwys i fod yn Aelod Annibynnol:

- Ni ddylai fod yn aelod neu'n swyddog o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy nac yn aelod o Gyngor Sir arall, Cyngor Bwrdeistref Sirol arall, Awdurdod Parc Cenedlaethol, Awdurdod Tân neu Gyngor Cymuned.
- Ni ddylai fod yn ŵr/gwraig neu bartner aelod neu swyddog o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy nac yn ŵr/gwraig neu bartner aelod neu swyddog Cyngor Sir arall, Cyngor Bwrdeistref Sirol arall, Awdurdod Parc Cenedlaethol, Awdurdod Tân neu Gyngor Cymuned.
- Ni ddylai ar unrhyw adeg yn y gorffennol fod wedi bod yn Aelod/Swyddog neu ŵr/gwraig neu bartner Aelod/Swyddog o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy neu un o'r cynghorau a fodolai cyn Conwy (h.y. Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Bwrdeistref Aberconwy, Cyngor Bwrdeistref Colwyn)
- Mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod yn gallu rhoi o'i amser i ymgymryd â swyddogaethau'r Pwyllgor. Mae angen rhywfaint o hyblygrwydd oherwydd y bydd rhai cyfarfodydd o bosibl yn cael eu cynnal ar adegau gwahanol neu ar fyr rybudd.

6.4 Bydd yr ymgeiswyr ar y rhestr fer yn cael eu gwahodd am gyfweliad.

6.5 Bydd y cyfweliad yn cynnwys cyfres o gwestiynau a bydd disgwyl i chi eu hateb.

6.6 Yn dilyn y cyfweliadau, bydd yr ymgeiswyr a ffafrir yn cael eu hystyried gan y Pwyllgor Safonau. Bydd y Pwyllgor Safonau wedyn yn gwneud argymhelliad i'r Cyngor, a fydd yn nodi'r penodiad terfynol.

6.7 Dyma fydd yr amserlen ar gyfer y broses gwneud cais:

| | |
|---|---|
| 3/8/2023 | Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau |
| 4/82023 | Llunio rhestr fer |
| 7/8/2023 | Hysbysu dewis ar gyfer cyfweliad |
| 14/8/2023 | Cyfweliadau |
| 19/10/2023 | Cyngor Llawn yn gwneud y penodiad ffurfiol |

Pan fyddwch yn cyflwyno cais, a fyddech cystal â nodi a ydych ar gael i fynychu cyfweliad ar y dyddiad hwn os gwelwch yn dda.

6.8 **Diogelu Data**

Bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn prosesu data personol gan ddefnyddio eu hawdurdod swyddogol a byddant ond yn eu defnyddio at ddibenion recriwtio ac aelodaeth y Pwyllgor Safonau. Bydd y wybodaeth ond yn cael ei rhannu gyda'r swyddogion a'r Aelodau hynny sy'n rhan o'r broses recriwtio (gan nodi

bod y penodiad terfynol yn cael ei wneud mewn adroddiad sydd ar gael yn gyhoeddus i'r Cyngor Sir cyfan). Os byddwch yn llwyddiannus, fe gedwir eich ffurflen gais dros gyfnod eich gwasanaeth ar y Pwyllgor Safonau. Os na fyddwch yn llwyddiannus, bydd y Cyngor yn gwaredu eich ffurflen gais mewn modd diogel ar ddiwedd y broses recriwtio. Gellir cael rhagor o wybodaeth am eich hawliau a sut i wneud cwyn os ydych chi'n anfodlon â sut caiff eich data personol ei drin ar wefan y Cyngor.